# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER, 20.05.2026 am 7 O'R GLOCH yr hwyr, Y Ganolfan Wanfawr.**

**Presennol -** Cynghorwyr Hawys Tuff (Is-Gadeirydd)
Sali Burns
Edgar Owen
Doug Jones
Delyth Jones
Dafydd Davis
Menna Treholme
Clerc Shoned Rees Griffith

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau** - Cyng ID, Cyng LD, Cyng EG

**3 Rhodd y Cadeirydd am 2025-2026**

Dymunai'r Cadeirydd rhoid y rhodd o £25 – i'w gadarnhau, Cyng LD yn absenol.

**4 Ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2026-2027**

Cynigwyd ethol y Cyng HT yn Gadeirydd am y flwyddyn 2026/2027. Cynnigwyd gan y Cyng MT ac eilwyd gan y Cyng EO.

**5 Ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2026-2027**

Cynnigwyd ethol y Cyng SB yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2026/27. Cynnigwyd gan y Cyng MT ac eilwyd gan y Cyng D Jones.

**6 Penodi aelodau (5) i Bwyllgor y Fynwent ac Eiddo**

Cynigwyd ail ethol y Cyng SB, Cyng Delyth Jones, Cyng ID, Cyng Doug J a'r Cyng EO i wasanaethu ar Bwyllgor y Fynwent ac Eiddo am y flwyddyn.

**7 Penodi aelod (1) i wasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Waunfawr**

Cynnigwyd ail ethol y Cyng Delyth Jones i wasanaethu ar Lywodraethwyr yr Ysgol a'r ran y Cyngor Cymuned. Cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng Doug Jones
.

**8 Penodi Aelod (1) i wasanaethu ar Bwyllgor y Ganolfan, Waunfawr**

Penderfynwyd peidio a penodi yn uniongyrchol gan fod y Cyng DD, Cyng DougJ a'r Cyng EO eisoes ar bwyllgor y Ganolfan, Waunfawr.

**9 Penodi Aelod (1) i wasanaethu ar Bwyllgor Unllais**

Cynnigwyd ail ethol y Cyng SB i wasanaethu ar Bwyllgor Unllais am y flwyddyn.

**10 Cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd**

Dim cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**11 Dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2026-2027**

Cyflwynwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Cymuned am y 12 mis i ddod, a nodwyd y dyddiadau.

Arwyddwyd……………………………….. Dyddiad……………………. 